




COLEG Sir Benfro
Pembrokeshire COLLEGE



EICH PARTNER BUSNES

colegsirbenfro.ac.uk





Y FFORDD ORAU I RAGWELD Y DYFODOL **YW EI GREU.**

Yn Central Training rydym yn ymroddedig i'ch helpu chi i greu dyfodol disglair i'ch busnes a'ch gweithlu.

Mae'r wybodaeth yn gywir adeg argraffu ond gall newid.



Croeso i Central Training



Gyda hanes o hyfforddi sy'n fwy na 50 mlynedd, rydym yn falch o weithio ochr yn ochr â busnesau lleol i sbarduno twf economaidd i'r rhanbarth.

Mae ein tîm Central Training yn ymroddedig i gefnogi busnesau lleol ac mae ganddynt arbenigedd mewn nodi'r cyfleoedd hyfforddi a'r ffrydiau cyllido a fydd yn eich helpu i gyrraedd eich targedau cyfredol yn ogystal â'ch dyheadau yn y dyfodol.

Gyda Rheolwr Cyfrif pwrpasol, bydd gennych fynediad at wybodaeth ac adnoddau arbenigol ar draws ystod eang o sectorau.

Beth bynnag sydd ei angen ar eich busnes, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych a'ch cefnogi gyda dadansoddi anghenion hyfforddi, recriwtio, prentisiaethau, hyfforddiant yn y gwaith a hyfforddiant pwrpasol.

Dr Barry Walters
Pennaeth, Coleg Sir Benfro

04 Pam dewis Central Training?

05 Ein datrysiadau hyfforddi

08 Hyfforddiant sgiliau technegol

09 Hyfforddiant proffesiynol

10 Hyfforddiant â chymhorthdal

11 Prentisiaethau

12 Hyfforddiant pwrpasol

13 Hyfforddiant ar-lein

14 Gwasanaethau recriwtio

15 Lleoliad gwaith

16 Llogi cyfleusterau a lleoliad

18 Hyfforddiant sector-benodol



- » Dros 30 o raglenni prentisiaeth
- » Gwasanaeth recriwtio **AM DDIM**
- » Cyfleusterau safonol y diwydiant
- » Pecynnau hyfforddi pwrpasol
- » Mynediad i gyrsiau hyd at a chan gynnwys lefel gradd
- » Rheolwyr Cyfrifon Ymroddedig
- » Hyfforddwyr medrus iawn sy'n adnabod eich sector



Pam dewis Central Training?

Ymunwch â mwy na 2,000 o gyflogwyr ledled Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Ceredigion sy'n dewis Central Training i ddiwallu eu hanghenion hyfforddi

Er mwyn ffynnu yn economi heddiw, cydnabyddir gweithlu medrus sy'n llawn cymhelliant fel un o elfennau allweddol llwyddiant busnes.

Yn Central Training rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chi i adeiladu gweithlu a fydd yn gweld eich cwmni'n ffynnu. Rhoddir Rheolwr Cyfrif arbenigol i chi a fydd yn gweithio gyda chi i nodi'ch anghenion cyfredol a'ch helpu chi i gynllunio i gyflawni'ch nodau yn y dyfodol trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus staff (DPP) a hyfforddiant.

Trwy'r hyfforddiant cywir, byddwn yn eich helpu i adeiladu gweithlu ysbrydoledig a llawn cymhelliant a fydd yn defnyddio eu sgiliau a'u hyder newydd i'ch helpu chi i gyflawni eich nodau busnes.





Hyfforddiant Sgiliau Technegol

Dyluniwyd ein cyrsiau hyfforddiant technegol i ddarparu'ch gweithwyr â'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni elfen benodol o'u swydd.



Sgiliau Busnes, Arweinyddiaeth a Hyfforddiant Proffesiynol

Rydym yn cynnig ystod eang o gyrsiau proffesiynol i helpu'ch gweithwyr i wella eu sgiliau. Bydd y wybodaeth arbenigol y maen nhw'n dod nôl â i'r gweithle yn eich helpu chi i gyflawni eich nodau busnes.



Prentisiaeth a Phrentisiaethau Uwch

Mae prentisiaethau ar gael mewn ystod eang o sectorau ac maent yn parhau i dyfu mewn poblogrwydd gan gael eu cydnabod fel un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol i gryfhau'ch gweithlu.


Ein Datrysiadau Hyfforddi

Rydym yn falch o fod yn brif ddarparwr hyfforddiant i gwmnïau ledled de-orllewin Cymru a thu hwnt. Rydym yn gallu cynnig hyfforddiant yn y sectorau canlynol:

Rheoli Anifeiliaid
Therapiau Harddwch a
Chyflenwol
Busnes a Rheoli
Arlwyo a Lletygarwch
Gofal Plant

Adeiladu
Diwydiannau Creadigol
Peirianeg
Gwasanaethau Ariannol
Trin Gwallt a Barbro
Iechyd a Diogelwch

Iechyd a Gofal Cymdeithasol
TG
Ieithoedd
Morol
Chwaraeon
Dysgu



rydym yn falch o fod â dros 50
mlynedd o brofiad o **ddiwallu**
anghenion busnesau lleol.

CYSYLLTWCH HEDDIW:

01437 753 320

central@pembrokeshire.ac.uk

Y 4 rheswm gorau i fuddsoddi yn eich gweithwyr



Mae'n Hybu Enw Da eich Cwmni

Gall buddsoddi yn nysgu a datblygu eich gweithwyr roi hwb i'ch enw da fel cyflogwr sy'n poeni am eu staff. Gall cynnig datblygiad gweithwyr fel rhan o fuddion gweithio i'ch cwmni eich helpu i ofalu am gystadleuaeth i ddenu'r dalent orau. Gall hefyd feithrin amgylchedd o welliant parhaus.



Mae'n Cynyddu Teyrngarwch Gweithwyr

Trwy fuddsoddi mewn hyfforddiant gweithwyr, byddant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Bydd hyn yn eu gwneud yn fwy ffyddlon i'r cwmni, ac mae gweithwyr ffyddlon yn ymgysylltu mwy, yn llawn cymhelliant ac yn fwy cynhyrchiol yn eu rolau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at amgylchedd gwaith cadarnhaol, sy'n cynyddu cymhelliant gweithwyr ac yn meithrin twf unigol ymhlith gweithwyr. Mae ymchwil wedi dangos y gall newid gweithwyr gostio, ar gyfartaledd rhwng chwech a naw mis o gyflog y gweithiwr hwnnw i gwmni.



Mae'n Hybu Gallu Gweithwyr

Efallai mai budd amlycaf datblygu gweithwyr yw'r effaith y bydd yn ei gael ar eu galluedd a'u hallbwn. Po fwyaf y byddwch chi'n hyfforddi'ch tîm, y mwyaf llwyddiannus y byddant. Mae datblygu gweithwyr yn creu cronfa o weithwyr talentog a ffyddlon sy'n ymwybodol o'u cryfderau a'u gwendidau ac sy'n gallu datblygu'r rhain ymhellach.



Mae'n Lleihau Marweidd-dra

Trwy ddyrchafu o'r tu mewn, yn hytrach nag o'r tu allan, rydych chi'n atal marweidd-dra yn eich cwmni, lle mae pobl yn sownd yn yr un rôl am flynyddoedd. Trwy hyfforddi'ch gweithwyr ar gyfer dyrchafiad, byddwch chi'n gwobrwyo gwaith caled pobl sy'n adnabod eich cwmni yn dda iawn gyda chyfleoedd arwain.

**DILYNWCH NI AM
DDIWEDDARIADAU :**



@centraltraining

HYFFORDDIANT SGILIAU TECHNEGOL

Sicrhau bod gan eich gweithwyr y sgiliau arbenigol sydd eu hangen ar eich busnes



Rydym yn deall bod sgiliau technegol yn hanfodol i lawer o fusnesau ac mae angen eu diweddarau'n barhaus. Er bod y rhan fwyaf o'n cymwysterau technegol yn y coleg, mewn rhai achosion, efallai y bydd yn bosibl i ni drefnu eu dapartu yn eich adeilad.

MAE ENGHREIFFTIAU O GYMWYSTERAU TECHNEGOL YN CYNNWYS:

- » 2D CAD
- » Weldio mewn Cod
- » Thermol Solar

“

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae Puffin Produce Ltd a Choleg Sir Benfro wedi datblygu perthynas waith agos. Cawsom y pleser o gefnogi mentrau y coleg gydag ysgolion lleol ac rydym wedi gweithio'n agos gyda'r coleg i ddatblygu prentisiaeth sy'n benodol i'r diwydiant. Mae hyn wedi bod o fudd mawr i ni gan ein bod wedi gallu cynyddu ymwybyddiaeth o broffil ein sector a'n cwmni i weithlu ifanc y dyfodol a sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir gan y coleg yn cyd-fynd â gofynion ein diwydiant. Mae cyrchu amrywiaeth o raglenni hyfforddi, fel Gweinyddu Busnes a Phrentisiaethau Peirianeg Gweithgynhyrchu Bwyd, wedi ein galluogi i ddatblygu ein cydweithwyr, gan gynyddu eu sgiliau a'u gwybodaeth yn y gweithle.”

Jane Sadler, Rheolwr Adnoddau Dynol, Puffin Produce

SGILIAU BUSNES, ARWEINYDDIAETH A HYFFORDDIANT PROFFESIYNOL

Mae Central Training yn darparu rhaglen helaeth o hyfforddiant proffesiynol o ansawdd, hyblyg ar draws ystod eang o sectorau diwydiant. Datblygir ein cyrsiau gyda mewnbwn gan gyflogwyr ac fe'u cynlluniwyd i ddiwallu'ch anghenion sgiliau presennol ac sy'n dod i'r amlwg.

GRYMUSO'CH GWEITHWYR

Dyluniwyd ein cyrsiau busnes, arweinyddiaeth a hyfforddiant proffesiynol i uwchsgilio'ch rheolwyr a'ch tîm arweinyddiaeth i roi'r sgiliau a'r hyder iddynt arwain eich busnes i'r dyfodol.

CYRSIAU HYFFORDDIANT PROFFESIYNOL

- » ILM
- » AAT
- » Agile
- » Prince 2
- » Microsoft
- » OFTEC
- » IOSH
- » HACB
- » NEBOSH
- » TAR
- » Seiberddiogelwch
- » HNCs a HNDs

“

Mae gennym berthynas ragorol â'r tîm peirianeg yng Ngholeg Sir Benfro. Gyda'n gilydd rydym wedi hyfforddi gwneuthurwyr offer, peirianwyr cynnal a chadw a thrydanol a phrentisiaid sydd wedi ennill gwobrau yn y DU. Mae'r Coleg hefyd yn cefnogi mewn hyfforddiant pwrpasol ar gyfer sgiliau a chymwysterau sy'n ofynnol gan ein staff, gan gynnwys weldio pwrpasol a rheolyddion olwyn sgraffiniol.”

Glen Wells, Rheolwr Cyffredinol, St David's Assemblies

**DDIM YN GALLU DOD O HYD I'R HYN RYDYCH CHI'N CHWILIO AMDANO?
CYSYLLTWCH Â NI AR:**

01437 753 320 | central@pembrokeshire.ac.uk

HYFFORDDIANT Â CHYMHORTHDAL

Mae ein cynghorwyr hyfforddedig wrth law i sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw gyfleoedd hyfforddi a ariennir y gallai eich busnes fod yn gymwys ar eu cyfer.

Mae'r cyllid sydd ar gael, a'r cyrsiau a'r cwmnïau sy'n gymwys, yn newid yn aml, edrychwch ar ein gwefan am y cyfleoedd cyllido diweddaraf. Mae cyrsiau am ddim, neu, gyda chymhorthdal, ar

gael ar hyn o bryd trwy arian prentisiaeth a'r Cyfrif Dysgu Personol.

Maecymhwysedd i gyflogwyr sy'n cael hyfforddiant trwy'r Cyfrif Dysgu Personol yn wahanol i'r hyn sydd ar gyfer unigolion felly gwiriwch eich cymhwysedd cyn cofrestru'ch gweithwyr ar gyfer cwrs.

Cyfrifon Dysgu Personol

Efallai y bydd cyllid trwy Gyfrifon Dysgu Personol yn gallu cynorthwyo'ch cwmni gyda:

- Cefnogi datblygiad sgiliau eich gweithwyr
- Galluogi gweithwyr i ennill cymwysterau i helpu i gwrdd â bylchau sgiliau cyfredol
- Helpu i fynd i'r afael â heriau cyfredol a thyfu eich busnes
- Cefnogi anghenion sgiliau tymor hir er mwyn gwella eich busnes
- Cefnogi cymwysterau o fewn y sectorau blaenoriaeth



PRENTISIAETHAU

Mae prentisiaethau yn darparu ffordd gost-effeithiol i adeiladu gweithlu talentog ar gyfer y dyfodol. Trwy'r rhaglen brentisiaeth gallwch uwchraddio sgiliau staff newydd a staff presennol.

CYSYLLTWCH Â NI I DDARGANFOD MWY:

01437 753 320 | central@pembrokeshire.ac.uk



Buddion Prentisiaethau

- » Llenwch eich bylchau sgiliau
- » Ariennir trwy Lywodraeth Cymru
- » Mwy o gynhyrchiant
- » Datblygu gweithlu medrus a chymwys

Gwasanaeth Recriwtio Prentisiaethau AM DDIM

Gall ein Biwro Cyflogaeth weithio gyda chi i'ch helpu chi i recriwtio'r prentis cywir ar gyfer eich busnes.

Mae prentisiaid yn elwa o ddysgu ymarferol yn y gweithle, gyda chefnogaeth hyfforddiant ac arbenigedd arbenigol y Coleg.

YMHLITH Y LLWYBRAU PRENTISIAETH SYDD AR GAEL MAE:

- » Cyngor ac Arweiniad
- » Rheoli Anifeiliaid
- » Therapi Harddwch
- » Gwaith Brics
- » Busnes a Gweinyddu
- » Gofal Plant
- » Iechyd Clinigol
- » Hyfforddi a Mentora
- » Adeiladu
- » Gwasanaeth Cwsmer
- » Addysg
- » Gosodiadau Trydanol


- » Peirianeg
- » Rheoli Cyfleusterau
- » Gwasanaeth Bwyd a Diod
- » Peirianeg Bwyd a Diod
- » Trin Gwallt a Barbro
- » Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- » Lletygarwch
- » Cadw Tŷ
- » TG, Gwe a Thelathrebu
- » Gwasanaethau Cegin

- » Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- » Peirianeg Forol
- » Gwaith Chwarae
- » Plymio
- » Gweithrediadau Porthladdoedd
- » Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion
- » Galwedigaethau Trywel
- » Cynnal a Chadw Cerbydau
- » Weldio a Ffabrigo

HYFFORDDIANT PWRPASOL

Credwn mai un o'n hasedau mwyaf yw ein gallu i gynnig datrysiad hyfforddi i chi sydd wedi'i deilwra'n benodol i ddiwallu anghenion eich busnes.

P'un a ydych am uwchraddio'ch gweithwyr â sgil benodol, neu os oes angen rhaglen hyfforddi gynhwysfawr arnoch, bydd eich rheolwr cyfrifyn gweithio gyda chi i ddatblygu datrysiad hyfforddi mewnlol wedi'i deilwra i'ch busnes.



HYFFORDDIANT AR-LEIN

Rydyn ni'n gwybod nad yw hi bob amser yn hawdd rhyddhau gweithwyr ar gyfer hyfforddiant, dyna pam rydyn ni'n datblygu opsiynau dysgu mwy cyfunol ochr yn ochr â'n darpariaeth LearnOnline.

Gellir cyrchu ein cyrsiau LearnOnline trwy ddefnyddio cyfrifiadur a chysylltiad rhwyngwyd o unrhyw le. Mae LearnOnline yn caniatáu i'ch gweithwyr weithio ar eu cyflymder eu hunain, gan astudio pryd maen nhw eisiau a ble maen nhw eisiau, gan ganiatáu iddyn nhw ffitio astudiaethau o amgylch ffyrdd prysur o fyw.




Cost-effeithiol

Gall ein cyrsiau LearnOnline fod yn un o'r ffyrdd mwyaf cost-effeithiol i hyfforddi'ch gweithwyr.



Dysgu ar eich cyflymder eich hun

Gall eich gweithwyr ddewis pryd a ble maen nhw'n astudio



Hyfforddiant Busnes

Mae gan LearnOnline ystod wych o gyrsiau hyfforddi busnes gan gynnwys:

- Cyfrifeg a Chyllid
- Cydymffurfiaeth
- Coronafeirws
- Gwasanaeth cwsmer
- Amrywiaeth
- Iechyd a Diogelwch
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Hyfforddiant TG
- Rheoli Prosiectau

Darganfyddwch fwy:
online.pembrokeshire.ac.uk

GWASANAETH RECRIWTIO AM DDIM

Nod Biwro Cyflogaeth Coleg Sir Benfro yw paru'r ymgeisydd iawn â'r swydd iawn yn eich busnes. Rydym yn cefnogi ac yn paratoi ymgeiswyr sydd ag amrywiaeth eang o arbenigedd a sgiliau yn barod i chi eu recriwtio. Gyda chronfa myfyrwyr llawn-amser o tua 3,000, a thua 4,000 o fyfyrwyr rhan-amser, mae gennym sbectrwm mawr o sgiliau a phrofiad i chi recriwtio ohonynt.

Gallai eich datrysiad staffio fod yn alwad ffôn i ffwrdd.

BUDDION I'CH BUSNES:

- » Gallwn drefnu ymweliadau ar y safle i gael gwell dealltwriaeth o'ch busnes a'ch anghenion recriwtio
- » Gallwn drefnu lleoliadau profiad gwaith er mwyn caniatáu i chi 'samplu' darpar weithwyr cyn mynd drwy'r broses recriwtio
- » Gallwn gynorthwyo gydag asesiadau iechyd a diogelwch yn y gweithle ar gyfer y lleoliadau gwaith
- » Gallwn drefnu treialon swydd

Ffoniwch y tîm heddiw: 01437 753 463
recruit@pembrokeshire.ac.uk



EMPLOYMENT BUREAU | BIWRO CYFLOGAETH

GALLWN HELPU GYDA:

- » Ysgrifennu'r disgrifiad swydd
- » Hysbysebu'ch swyddi gwag i'n corff myfyrwyr
- » Hyrwyddo'ch swyddi gwag trwy'r cyfryngau cymdeithasol
- » Cynnal digwyddiadau recriwtio pwrpasol yn y Coleg
- » Ymgeiswyr ar y rhestr fer
- » Cefnogi gyda threfniadau cyfweld gan gynnwys defnyddio lle yn ein swyddfeydd ar gyfer cyfweld ymgeiswyr
- » Cynnig cyngor ar ddewis yr ymgeisydd iawn
- » Cefnogaeth barhaus



LLEOLIADAU GWAITH

Helpwch eich busnes i dyfu.


Yng Ngholeg Sir Benfro rydym wedi ymrwymo i gefnogi ein myfyrwyr i ymgymryd â lleoliadau gwaith ochr yn ochr â'u hastudiaethau. Er mwyn caniatáu i gynifer o fyfyrwyr â phosibl elwa o leoliadau gwaith rydym yn awyddus i weithio gyda busnesau lleol a rhanbarthol a hoffai ddefnyddio'r sgiliau a'r doniau a gynigir gan fyfyrwyr Coleg Sir Benfro sy'n astudio ar ystod eang o raglenni academiaidd a galwedigaethol.

BUDDION I EICH CWMNI

- » Mae profiad gwaith yn strategaeth recriwtio wych. Mae ymchwil yn dangos bod pobl ifanc yn fwy tebygol o ddilyn gyrfa yn y maes y cawsant brofiad gwaith ynddo, gan roi cronfa fwy o dalent ifanc i chi ddewis ohoni.
- » Gall profiad gwaith fod o fudd i'ch gweithwyr eraill trwy roi'r cyfle iddynt fentora'r hyfforddai a dangos eu sgiliau arwain eu hunain.
- » Nid yw cynnig cyfleoedd profiad gwaith yn gost ariannol i chi.
- » Mae profiad gwaith yn PR da i'ch cwmni - unwaith y bydd y gair o gwmpas eich bod yn cynnig rhaglen profiad gwaith rhagorol bydd gennych y bobl ifanc orau eisiau gweithio i chi.
- » Mae pobl ifanc yn dod ag egni a phersbectif cwbl newydd i'ch busnes ac yn rhoi cyfle i chi fanteisio ar farchnad iau. Gallwch elwa o wybodaeth ieuenctid yn enwedig o ran TG a'r cyfryngau cymdeithasol.
- » Mae'r lleoliadau'n amrywio o un diwrnod yr wythnos i lefydd bloc sy'n eich galluogi i ddewis pa un sy'n gweddu orau i'ch anghenion busnes.



Ffoniwch y tîm heddiw: 01437 753 137 or 753 466





MEETING
IN PROGRESS

Llogi Lleoliad

**O ystafelloedd cyfarfod i ddau o bobl i
theatr ar gyfer 220. Eich dewis chi yw e!**



Rydym yn gallu cynnig ystod o leoedd i'w llogi gan gynnwys atriwm olau ac awyrog, ystafelloedd cyfarfod o wahanol feintiau, ystafelloedd TG, Theatr Myrddin, stiwdios dawnys a'r Bwyty.

I'r rhai sy'n chwilio am le mwy rydym hefyd yn gallu llogi'r neuadd chwaraeon.

Gyda pharcio ar y safle ac ystod o opsiynau lluniaeth, mae Coleg Sir Benfro yn darparu cyfleuster cyfleus o ansawdd uchel ar gyfer cyfarfodydd a chynadleddau.

I ymholi ffoniwch: 01437 753 000

NG
RESS



CAMPWS 6

Ystafell Ffitrwydd a Neuadd Chwaraeon

Mae ein hystafelloedd ffitrwydd o'r radd flaenaf yn cynnig aelodaeth gorfforaethol sy'n cynnwys un sesiwn hyfforddi bersonol y mis.

Oes gwell gennych chwaraeon tîm? Mae'r neuadd chwaraeon hefyd ar gael i'w llogi.

fitness@pembrokeshire.ac.uk
sportshall@pembrokeshire.ac.uk



Bwyty a Siop Goffi

Yng Ngholeg Sir Benfro rydym yn falch o allu cynnig profiad bwyta gwyh yn ein Bwyty bob nos lau (yn ystod y tymor) tra bod y Siop Goffi yn gweini brecwast a chinio ysgafn bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae'r Bwyty hefyd ar agor i ginio bob dydd gyda chinio rhost bob dydd Gwener.

restaurant@pembrokeshire.ac.uk
01437 753 165



Chwilio am rywbeth gwahanol?

Holwch am ein diwrnodau hyfforddi corfforaethol. Cyfunwch hyfforddiant â sesiynau ffitrwydd, tylino hamddenol a chinio yn y bwyty.



Trin Gwallt a Salonau Harddwch

Mae ein salonau masnachol yn agored i'r cyhoedd ac yn cynnig ystod eang o wasanaethau gwallt, harddwch a therapi cyflenwol o ansawdd uchel am brisiau rhagorol.

Mae apwyntiadau ar gael yn ystod y dydd ac ar rai nosweithiau. Mae croeso i ddynion a menywod. Gellir gwneud trefniadau arbennig ar gyfer archebion grŵp ac ar gyfer digwyddiadau 'Pampro' y gellir eu cynnal trwy gydol y flwyddyn academiaidd.

salons@pembrokeshire.ac.uk
01437 753 164

BUDD I'R MEDDWL, Y CORFF A'R ENAID

BUSNES A GWEINYDDU



Mae ein holl gyrsiau busnes wedi'u cynllunio i adlewyrchu anghenion cyflogwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae ein cyrsiau'n amrywio o gyrsiau byr gyda'r nod o gwrdd â bylchau sgiliau penodol i gyrsiau hirach gyda'r nod o ddatblygu ystod o sgiliau busnes trosglwyddadwy.

Mae rhai o'n cyrsiau hefyd yn gymwys i gael cyllid PLA sy'n helpu i leihau cost uwchsgilio'ch gweithwyr.

Rydym hefyd yn gallu cynnig ystod eang o gyrsiau ar-lein sy'n dod â hyblygrwydd ychwanegol wrth geisio uwchsgilio'ch gweithwyr.

MAE'R CYRSIAU'N CYNNWYS:

- » Technegwyr Cyfrifyddu
- » Cadw Llyfrau
- » Busnes a Gweinyddu
- » Gwasanaeth Cwsmer
- » GDPR
- » Rheoli Prosiectau
- » Cymraeg yn y Gweithle

**DDIM YN GALLU DOD O HYD I'R HYN RYDYCH CHI'N CHWILIO AMDANO?
CYSYLLTWCH Â NI AR:**

01437 753 320 | central@pembrokeshire.ac.uk

GOFAL PLANT



Mae gan ein tîm o hyfforddwyr ac aseswyr gofal plant profiadol enw da am ddarparu hyfforddiant gorfodol ac achrededig o ansawdd uchel.

Rydym yn gweithio ochr yn ochr â meithrinfeydd a lleoliadau gofal plant ledled Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Ceredigion i adeiladu partneriaethau effeithiol sy'n sicrhau bod y cymwysterau rydyn ni'n eu darparu yn arwain at welliannau go iawn mewn gwasanaethau.

Gall ein rhaglenni eich helpu chi i uwchsgilio aelodau presennol y tîm neu i ddenu talent newydd i'ch busnes.

Mae ein tîm yn deall yr heriau sy'n wynebu'r sector a gallant ddangos i chi sut y gall gweithlu medrus a deinamig helpu'ch busnes i aros yn gystadleuol.

DDIM YN GALLU DOD O HYD I'R HYN RYDYCH CHI'N CHWILIO AMDANO? CYSYLLTWCH Â NI AR:

01437 753 320 | central@pembrokeshire.ac.uk

MAE'R CYRSIAU'N CYNNWYS:

- » Plant a Phobl Ifanc
- » Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygu Plant
- » Diploma mewn Gofal Plant (Rheoli)
- » Diogelwch Bwyd Lefel 2
- » Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal Plant
- » Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygu Plant
- » Cymorth Cyntaf Pediatreg
- » Gwaith Chwarae
- » Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion

ADEILADU AC IECHYD A DIOGELWCH



Gall Central Training ar y cyd â'n darlithwyr a hyfforddwyr Canolfan Adeiladu profiadol, gynnig ystod o gyrsiau i uwchsgilio'ch gweithwyr gyda llawer o gyrsiau'n cael eu cyflwyno ar safle'r coleg neu ar eich safle eich hun.

Cyda hyfforddiant yn rhan hanfodol o'r diwydiant adeiladu, nod ein rhaglenni yw sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeddfwriaeth gyfredol a bod eich gweithwyr yn fedrus iawn yn eu maes gan roi mantais bendant i chi yn y sector cystadleuol hwn.

Yn y cyfamser, bydd ein cyrsiau iechyd a diogelwch yn sicrhau bod gan eich gweithwyr wybodaeth am arferion gwaith diogel gan helpu i leihau nifer y digwyddiadau y gellir eu hosgoi a gwarchod enw da eich busnes.

**DDIM YN GALLU DOD O HYD I'R HYN RYDYCH
CHI'N CHWILIO AMDANO?
CYSYLLTWCH Â NI AR:**

01437 753 320 | central@pembrokeshire.ac.uk

MAE'R CYRSIAU'N CYNNWYS:

- » CAD 2D
- » Systemau Ffynhonnell Tir ac Aer
- » Rheoli'n Ddiogel IOSH
- » Trin â Llaw
- » NEBOSH
- » Diogelwch Prosesau
- » Thermol Solar
- » NVQs: Saer Mainc | Brics | Peintio ac Addurno | Plastro | Plymio a Gwresogi | Gwaith Saer y Safle

HNC/HND mewn:

- » HNC/HND Rheoli Adeiladu

MARCHNATA DIGIDOL



Trwy ddyfodiad marchnata digidol, mae cwmnïau bellach yn gallu cyrraedd cynulleidfa lawer ehangach nag sy'n bosibl gan ddefnyddio'r dulliau marchnata traddodiadol mewn ffordd sy'n gost-effeithiol ac yn fesuradwy.

Cyda'n rhaglenni marchnata digidol, byddwch chi'n dysgu sut i greu ymgyrchoedd wedi'u targedu a fydd yn eich galluogi i hyrwyddo'ch cynhyrchion neu'ch gwasanaethau gyda chyllideb farchnata gyfyngedig hyd yn oed.

Bydd marchnata digidol yn eich helpu i ddiogelu eich cwmni yn y dyfodol a bydd yn galluogi'ch gweithwyr i ddod yn hyderus yn ddigidol wrth iddynt ddysgu sut i greu cynnwys deniadol a defnyddio offer dadansoddeg i fonitro perfformiad y cynnwys y maent yn ei greu.

MAE'R CYRSIAU'N CYNNWYS:

- » Dylunio Graffig ar gyfer Busnesau Bach
- » Cyfryngau Cymdeithasol
- » Dylunio Gwe

**DDIM YN GALLU DOD O HYD I'R HYN RYDYCH
CHI'N CHWILIO AMDANO?
CYSYLLTWCH Â NI AR:**

01437 753 320 | central@pembrokeshire.ac.uk

PEIRIANNEG



Mae gan Goleg Sir Benfro enw da wrth gyflwyno cyrsiau peirianeg o ansawdd uchel.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi cwmnïau i gyflawni nid yn unig eu rhwymedigaethau hyfforddi statudol ond hefyd i'w helpu i uwchsgilio eu gweithlu gan ganiatáu iddynt gyflawni eu targedau cynnydd.

Rydym yn gwybod na allwn sefyll yn yr unfan er mwyn helpu'ch busnes i dyfu. Er mwyn dangos ein hymrwymiad i'ch busnes rydym yn buddsoddi'n barhaus mewn peiriannau ac offer i fodloni gofynion y gwahanol sectorau peirianeg.

Yn ogystal â chysiau 'oddi ar y silff' rydym hefyd yn gallu cynnig rhaglenni hyfforddi pwrpsol sydd wedi'u cynllunio i gyd-fynd yn union â'ch anghenion busnes gan gynnwys dysgu cyfunol ar gyfer rhai cyrsiau.

**DDIM YN GALLU DOD O HYD I'R HYN RYDYCH
CHI'N CHWILIO AMDANO?
CYSYLLTWCH Â NI AR:**

01437 753 320 | central@pembrokeshire.ac.uk

MAE'R CYRSIAU'N CYNNWYS:

- » Prentisiaethau
- » Weldio mewn Cod
- » Gosod Trydanol
- » Lluniadu Peirianeg
- » Rheoliadau Gwifrau
- » Peirianeg Forol
- » CAD 2D
- » Rheoli Ansawdd
- » Gwasanaethau Technegol

HNCs yn:

- » Trydanol/Electronig
- » Offeryniaeth
- » Peirianeg Fecanyddol
- » Systemau Pwer
- » Gweithrediadau Proses

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL



Fel un o'r sectorau cyflogaeth mwyaf ledled Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Ceredigion, mae hyfforddi ac uwchsgilio gweithwyr o'r pwys mwyaf i sicrhau bod y gwasanaethau rydych chi'n eu cynnig o'r ansawdd uchaf a bod eich gweithwyr yn parhau'n deyrngar i'ch busnes.

Mae gan y tîm yn Central Training flynyddoedd lawer o brofiad yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ac maent yn gallu cynnig ystod eang o raglenni hyfforddi achrededig a phwrpasol sy'n cyfateb yn union i'ch anghenion busnes.

Rhoddir Rheolwr Cyfrif i chi a fydd yn gweithio gyda chi i nodi'ch gofynion hyfforddi a'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o ddarparu'r hyfforddiant sydd ei angen arnoch ar gyfer eich gweithwyr.

**DDIM YN GALLU DOD O HYD I'R HYN RYDYCH
CHI'N CHWILIO AMDANO?
CYSYLLTWCH Â NI AR:**

01437 753 320 | central@pembrokeshire.ac.uk

MAE'R CYRSIAU'N CYNNWYS:

- » Gweinyddu Meddyginiaethau
- » Fframwaith Sefydlu Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal
- » Gofal Cymdeithasol
- » Dementia
- » Cymorth Cyntaf
- » Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Oedolyn
- » Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Plant a Phobl Ifanc
- » Codi a Chario â Llaw Cymru Gyfan

LLETYGARWCH AC ARLWYO



Gan weithredu 365 diwrnod y flwyddyn, gall fod yn hynod o anodd recriwtio a chadw staff yn y diwydiant lletygarwch.

Trwy'r hyfforddiant cywir, gall eich busnes elwa o well cymhelliant a chynhyrchedd gweithwyr gan arwain at gadw staff yn well a thwf busnes.

Gyda'r angen i ddarparu profiad gwych i gwsmeriaid o'r dechrau i'r diwedd, mae Central Training yn gallu cynnig ystod o raglenni hyfforddi byr a rhan-amser ar gyfer staff blaen tŷ a chefn tŷ a all arwain at enillion go iawn ar fuddsoddiad, o weithgareddau fel busnes parhaus ac uwchwerthu cynhyrchion a gwasanaethau.

**DDIM YN GALLU DOD O HYD I'R HYN RYDYCH
CHI'N CHWILIO AMDANO?
CYSYLLTWCH Â NI AR:**

01437 753 320 | central@pembrokeshire.ac.uk

MAE'R CYRSIAU'N CYNNWYS:

- » Gwasanaeth Cwsmer
- » Hyfforddiant Barista
- » Cymorth Cyntaf
- » Ymwybyddiaeth Alergenau Bwyd
- » Gwasanaeth Bwyd a Diod
- » Diogelwch Bwyd
- » HACCP
- » Goruchwyliaeth Lletygarwch
- » Gwasanaethau Cegin
- » Deiliad Trwydded Bersonol
- » Coginio Proffesiynol

ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH



Mae ein hystod o raglenni arweinyddiaeth a rheoli wedi'u hanelu at ddarparu eich rheolwyr â'r sgiliau sydd eu hangen i wella cynhyrchiant ac ysbryd eu timau ynghyd ag edrych ar ffyrdd o ostwng costau a gwella cadw staff.

Gall hyfforddi'ch rheolwyr fod yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o sicrhau newid yn eich busnes. O fewn llawer o sefydliadau mae rheolwyr yn gweithio eu ffordd i fyny trwy'r busnes sy'n eu galluogi i gael gwybodaeth amhrisiadwy o sut mae'ch sefydliad yn gweithio ond nid yw bob amser yn eu darparu â'r sgiliau rheoli pobl neu reoli prosiect y byddai'ch busnes yn wirioneddol elwa ohonynt.

Nod ein cyrsiau yw llenwi'r bwch hwn gan wneud eich rheolwyr mor effeithiol â phosibl a rhoi mwy o hyder iddynt yn eu rolau a'u cyfrifoldebau fel rheolwyr.

MAE'R CYRSIAU'N CYNNWYS:

- » ILM
- » Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- » Rheoli Perfformiad ar gyfer Busnes
- » Rheoli Prosiectau Hyblyg
- » IOSH
- » NEBOSH

DDIM YN GALLU DOD O HYD I'R HYN RYDYCH CHI'N CHWILIO AMDANO? CYSYLLTWCH Â NI AR:

01437 753 320 | central@pembrokeshire.ac.uk

Y GANOLFAN YNNI



Mae'r Ganolfan Ynni bwrpasol ar gampws Hwlfordd yn darparu hyfforddiant nwy, olew a dŵr, asesiad achrededig a chyfleusterau gosod a gwasanaethu ynni adnewyddadwy byw.

Mae'r Ganolfan Ynni, sy'n cael ei rhedeg gan staff arbenigol, yn cynnig siop un stop ar gyfer hyfforddi peirianwyr a busnesau plymio a gwresogi ledled Cymru.

Mae'r Ganolfan yn cynnig cyflenwad llawn o gyrsiau ynni gan gynnwys Hyfforddiant ac asesiad Nwy Olew ac ACS Nwy ynghyd â chysiau plymio ac adnewyddadwy gyda'r nod o gefnogi'r rhai sy'n gweithio tuag at achrediad MCS. Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnig Rhaglenni Dysgu a Reolir gan BPEC ar gyfer newydd-ddyfodiaid i Beirianeg Nwy Domestig.


Mae cyrsiau'n cael eu rhedeg yn ôl y galw a gellir eu teilwra'n benodol i'ch sefydliad.

**DDIM YN GALLU DOD O HYD I'R HYN RYDYCH
CHI'N CHWILIO AMDANO?
CYSYLLTWCH Â NI AR:**

01437 753 320 | central@pembrokeshire.ac.uk

MAE'R CYRSIAU'N CYNNWYS:

- » Hyfforddiant Gloywi Nwy ACS
- » Pymptiau Gwres Ffynhonnell Aer a Thir
- » Asesiad Gwresogi Canolog / Dŵr
- » Cyrsiau Nwy Domestig
- » Gosod a Chynnal a Chadw Ysgeintwyr Tân
- » Hyfforddiant Nwy (diweddariad a newydd-ddyfodiad)
- » Cyrsiau OFTEC
- » Ynysu Gosodiadau Trydanol yn Ddiogel
- » Dŵr Poeth Thermol Solar
- » Dŵr Poeth heb ei Awyru
- » Rheoliadau Dŵr



MAE BUSNES MAWR YN CYCHWYN YN FACH.

Richard Branson

Rydym yn ymroddedig i'ch helpu chi i greu dyfodol disglair i'ch
busnes a'ch gweithlu.

**DDIM YN GALLU DOD O HYD I'R HYN RYDYCH CHI'N CHWILIO
AMDANO?
CYSYLLTWCH Â NI AR:**

01437 753 320 | central@pembrokeshire.ac.uk



COLEG Sir Benfro
Pembrokeshire COLLEGE



CYSYLLTWCH Â NI



central@pembrokeshire.ac.uk



Merlins Bridge, Hwlfordd,
SA61 1SZ



01437 753 320

